



RÔL UNIGOLYN ADDAS

Beth yw Unigolyn Addas?

Os yw unigolyn yn cael ei asesu gyda diffyg gallu i gydsynio i'r Taliadau Uniongyrchol, gan ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) gall Unigolyn Addas gytuno i dderbyn y Taliadau Uniongyrchol er mwyn prynu gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn.

Bydd yr Unigolyn Addas fel arfer (ond nid bob tro) gyda atwrneiaeth arhosol, neu wedi ei benodi gan y llys gwarchod fel Dirprwy o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Fel arfer, bydd yr Unigolyn Addas yn aelod o'r teulu neu ffrind, ac yn cael ei benodi gan Gyngor Sir y Fflint i ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol i drefnu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion cytunedig yr unigolyn a'r canlyniadau a ddisgrifir o fewn eu cynllun gofal a chymorth cyfredol.

Cyfrifoldebau “Unigolyn Addas”

Fel “Unigolyn Addas” rhaid i chi ddilyn arferion da wrth wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn yn eich gofal a gweithredu er lles gorau'r unigolyn. Er fod yr unigolyn yn eich gofal â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau am daliadau uniongyrchol, rhaid ymgynghori â nhw cyn belled â bod hynny'n rhesymol yn ymarferol. Dylai'r unigolyn yn eich gofal gadw cymaint o reolaeth ac annibyniaeth â phosibl.

Fel yr Unigolyn Addas, byddwch yn gyfrifol am unrhyw drefniant dan gytundeb gydag asiantaeth. Os ydych yn cyflogi cymhorthydd personol, byddwch yn dod yn gyflogwr arnynt.

Sut i sefydlu Taliadau Uniongyrchol i Unigolyn Addas

Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu sefydlu yr un ffordd ag unrhyw unigolyn arall.

Mae'r Unigolyn Addas yn dod yn dderbynnydd y Taliadau Uniongyrchol ac felly angen arwyddo cytundeb Taliadau Uniongyrchol gyda Chyngor Sir y Fflint.

Pa gymorth sydd ar gael?

Mae gan yr Unigolyn Addas sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol hawl i ddefnyddio'r Gwasanaethau Cynnal Taliadau Uniongyrchol ac yn derbyn cefnogaeth, gwybodaeth a chanllawiau yn yr un ffordd ag unrhyw unigolyn arall.

Amodau ar gyfer derbyn Taliadau Uniongyrchol fel Unigolyn Addas

Mae'r Unigolyn Addas sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn destun yr un telerau ac amodau ag unrhyw unigolyn arall gyda'r ychwanegiad o un amod arall.

□ *Ni all yr Unigolyn Addas ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i dalu eu hunain i ddarparu gofal a chymorth.*

Eich hawliau fel “Unigolyn Addas”

Gallwch benderfynu camu'n ôl fel “Unigolyn Addas” ar unrhyw adeg. Rhowch wybod i Gyngor Sir y Fflint am eich penderfyniad a byddwn yn gweithio gyda chi i newid y trefniadau.

Manylion Cyswllt

Dp.support@flintshire.gov.uk

01352 701100